



Blaenoriaethu lechyd y Croen yng Nghymru

ADRODDIAD TIRLUNIO • 2016
Dr Hayley Hutchings a Dr Sarah Wright



www.skincarecymru.org

Cynnwys

Cydnabyddiaeth	2
Cyflwyniad	3
Methodoleg	4
Canfyddiadau	5
Symud Ymlaen	12
Atodiad	13

Cydnabyddiaeth

Hoffem fynegi ein diolch i'r staff o Fyrddau Iechyd Lleol (BILI) yng Nghymru a neilltuodd amser i gasglu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn paratoi'r adroddiad hwn.

Rydym hefyd yn diolch i Dr Hayley Hutchings a Dr Sarah Wright yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe am eu mewnbwn a'u cymorth wrth baratoi'r adroddiad hwn.

Elusen wedi'i rhedeg gan wirfoddolwyr yw Skin Care Cymru. Grŵp cymorth i gleifion ydyn ni, sy'n rhoi llais i'r rhai sydd ag unrhyw gyflwr y croen yng Nghymru. Hefyd, ni yw'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen, ac rydym yn ddiolchgar i gadeirydd ac aelodau'r grŵp hwn am godi ymwybyddiaeth o'r adroddiad hwn.



Pwyllgor Rheoli Skin Care Cymru

Delwedd y clawr: Shutterstock 2016.

Diolch i Elin Meek am gyfieithu i'r Gymraeg.

Gyda diolch i'r cyrff canlynol am eu cymorth



Cyflwyniad

Mae amcangyfrifon yn dangos bod dros 1.5m o bobl yng Nghymru yn cael profiad o gyflwr y croen bob blwyddyn a bod dros 720,000 o bobl yn ymweld â meddyg teulu gyda chyflwr y croen¹. Er y gall difrifoldeb cyflyrau'r croen amrywio'n sylweddol, canfu adroddiad diweddar gan y Grŵp Trawsbleidiol Seneddol ar Groen fod effaith seicolegol a chymdeithasol afiechyd y croen ar fywydau pobl yn arwyddocaol². Mewn rhai achosion mae modd cymharu'r effaith honno â chyflyrau cronig tebyg fel clefyd y galon a diabetes. Er gwaethaf hyn, cyfyngedig yw darpariaeth gwasanaethau dermatoleg yn y GIG yn Lloegr.

Mae'r sefyllfa yng Nghymru hyd yn oed yn fwy cymhleth gan mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am ddarpariaeth neu ansawdd gwasanaethau dermatoleg. Yn anecdotaidd, mae'n amlwg fod darpariaeth gwasanaethau'n bryder penodol, tra mae rhai o'r materion sy'n gyffredin yn Lloegr, fel amserau aros a materion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, hefyd yn bodoli yng Nghymru. Gan nad yw'r wybodaeth mewn un lle ar hyn o bryd, mae'n anodd gwneud achos cryf i wleidyddion ac arweinwyr polisi ynghylch yr angen am ddiwygio'r system iechyd ac am sicrhau y gall cleifion gael mynediad i'r gwasanaethau a'r triniaethau sydd eu hangen arnyn nhw.

Mae deall yn eglur y ddarpariaeth o ran gofal a thriniaeth i bobl yng Nghymru sy'n byw gyda chlefydau a chyflyrau'r croen yn chwarae rhan bwysig wrth lywio arferion clinigol ac o ganlyniad wrth wella ansawdd y gofal i gleifion. Cydnabu Skin Care Cymru fod bwllch yn y wybodaeth sy'n gysylltiedig â deall tirlun gwasanaethau iechyd i rai yng Nghymru sydd â chyflyrau'r croen.

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn, gwnaeth Skin Care Cymru arolwg i asesu'r amrywiaeth yn ansawdd gwasanaethau dermatoleg eilaidd a phrofiad cleifion yng Nghymru. Mae'r adroddiad byr hwn yn amlygu'r tirlun y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ynddo ar draws Cymru i rai sydd â chyflyrau'r croen.

Ar ddechrau'r ymarfer hwn i gasglu data, y bwriad oedd adrodd ar fynychder cyflyrau'r croen; y strategaethau lleol a sefydlwyd i wella canlyniadau i rai sydd â chyflyrau'r croen; cymarebau ymgynghorwyr dermatoleg a nyrsys arbenigol i gleifion; yr amserau aros am apwyntiadau a'r gwasanaethau seicodermatoleg a'r cymorth iechyd meddwl sydd ar gael.

Er na roddodd pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru ymatebion, mae'r dadansoddiad ar gyfer yr adroddiad hwn wedi codi gwybodaeth a materion pwysig sy'n gofyn am sylw Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ym maes iechyd yng Nghymru. Ond, dylid ystyried y canlyniadau hynny ochr yn ochr â chyhoeddiadau cyhoeddus eraill, sy'n cwmpasu materion tebyg cysylltiedig â gwasanaethau o dan wasgfa yn y GIG.

Nid bod yn astudiaeth wyddonol drylwyr oedd bwriad yr ymarfer casglu data hwn, a wnaed gan ddefnyddio ceisiadau rhyddid gwybodaeth a anfonwyd i adrannau Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol ar draws y saith BILLI. Yn hytrach, ei fwriad oedd bod yn fodd o geisio dod o hyd i wybodaeth gysylltiedig â statws gwasanaethau dermatoleg a llawfeddygaeth blastig a'u capasiti cysylltiedig i gyflawni gofal yn y GIG yng Nghymru yn 2015.

Mae'r data llawn anhysbys a gasglwyd i lunio'r adroddiad hwn ar gael drwy wefan Skin Care Cymru (www.skincarecymru.org) a hoffem annog gwneuthurwyr polisi i ymgynghori â'r set data hon.

¹ Schofield J, Grindlay D a Williams H. Skin Conditions in the UK: A Health Care Needs Assessment. Centre of Evidence Based Dermatology, Prifysgol Nottingham, 2009.

² The Psychological and Social Impact of Skin Diseases on People's Lives' Adroddiad gan y Grŵp Trawsbleidiol Seneddol ar Groen, 2013.

Methodoleg

Anfonwyd cais rhyddid gwybodaeth i bob un o saith BILI Cymru ddechrau mis Gorffennaf 2015:

- | | |
|--------------------|--------------------------|
| ① Hywel Dda | ⑤ Betsi Cadwaladr |
| ② Caerdydd a'r Fro | ⑥ Abertawe Bro Morgannwg |
| ③ Aneurin Bevan | ⑦ Cwm Taf |
| ④ Powys | |

Rhoddwyd hyd at ddiwedd mis Hydref 2015 i'r Byrddau Iechyd ymateb i'r cais. Diben y cais hwn oedd cael gwybodaeth am y canlynol: gwasanaethau gofal y croen sydd ar gael ym mhob BILI; darpariaeth gwasanaethau arbenigol a chymunedol; niferoedd y cleifion sy'n mynd drwy eu gwasanaethau dermatoleg a llawfeddygaeth blastig; y lefelau staffio sydd ar gael i gynorthwyo clinigau dermatoleg; a'r protocolau a ddefnyddir i gynorthwyo eu gwasanaethau.



Ffynhonnell image: www.diabetes.org.uk

Trefnwyd cwestiynau penodol yn bedair adran benodol:

- Cynllun a chyfansoddiad y gwasanaeth
- Ymgynghori ac asesu anghenion
- Defnydd gwasanaeth penodol (dermatoleg)
- Defnydd gwasanaeth penodol (gwasanaethau llawfeddygaeth blastig) (Gwelir copi o'r cais rhyddid gwybodaeth yn Atodiad 1)

Materion sy'n gysylltiedig â chasglu'r data

- Er gwaetha'r gofyniad gorfodol i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth cyn pen 20 diwrnod, roedd angen anfon negeseuon atgoffa sawl tro er mwyn cael ymatebion y Byrddau Iechyd. Gofynnodd rhai Byrddau Iechyd am fwy o eglurhad er mwyn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac estynnodd hynny'r cyfnod casglu data.
- Dychwelodd cyfanswm o pump o'r saith Bwrdd Iechyd y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Ymatebodd un bwrdd iechyd i'r cais gan roi gwybod i Skin Care Cymru na allent ddarparu'r wybodaeth, gan ddyfynnu eu hawl i eithrio o gais Rhyddid Gwybodaeth a chan ddweud y byddai'n costio gormod ac yn cymryd gormod o amser staff i ymdrin â'r cais am ddata. Nid ymatebodd un bwrdd iechyd arall. Nid oedd y byrddau iechyd hynny a ymatebodd yn gallu rhoi manylion ar gyfer rhai cwestiynau, a data ar lefel grynodol yn unig a ddarparwyd. Dywedodd rhai y byddai ymatebion yn gofyn am adolygiad unigol o gofnodion cleifion, tra nad oedd BILI eraill yn cofnodi data ar lefel fanwl.
- Derbyniwyd yr ymateb cyntaf erbyn 18 Awst, a derbyniwyd yr ateb olaf erbyn 19 Hydref. Rydym wedi cofnodi'r canfyddiadau o'r pump Bwrdd Iechyd a ymatebodd yn ddiennw, a chyfeirir atynt fel bwrdd iechyd A, B, neu C, D ac E yn yr adroddiad hwn (fel yn yr adroddiad Saesneg).


Canfyddiadau

Tystiolaeth o ddefnyddio gwasanaethau ar draws Cymru ym maes Dermatoleg

Gwybodaeth ar lefel grynodol yn unig a ddarparodd mwyafrif y byrddau iechyd felly nid oeddem yn gallu gwneud cymariaethau fesul cyflyrau penodol. Bu cynnydd cyson yn nifer y cleifion a gyfeirir ers 2010.

Mae **Ffigwr 1** yn cyflwyno cyfanswm nifer y cleifion a gyfeiriwyd o ofal sylfaenol i wasanaethau dermatoleg arbenigol mewn gofal eilaidd lleol bob blwyddyn fel y'u hadroddwyd gan pump BILI yng Nghymru.

Mae Ffigwr 1 yn dangos nifer y cleifion a gyfeiriwyd o ofal sylfaenol i wasanaethau dermatoleg arbenigol gofal eilaidd (2010-2015)




Nodiadau: Dim data ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd B. *Dim data ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd A ar gyfer 2010; Data ar gael rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2010 yn unig ar gyfer Bwrdd Iechyd E. **Cyfnod casglu data mis Ionawr-mis Mehefin 2015 ar gyfer Byrddau Iechyd A-D; mis Ionawr-mis Awst ar gyfer Bwrdd Iechyd E.

Mae **ffigrau 2 a 3** yn cyflwyno nifer y cleifion sy'n mynychu apwyntiadau cleifion allanol newydd neu ddilynol ym maes dermatoleg rhwng 2010 a 2015.


Mae'r graffiau'n dangos ac yn darparu tystiolaeth fod nifer cynyddol o gleifion dermatoleg newydd a dilynol sy'n rhoi gofynion ar y gwasanaethau dermatoleg ar draws y pum BILI a ymatebodd.

Mae Ffigwr 2 yn dangos nifer yr apwyntiadau cleifion allanol newydd ym maes dermatoleg (2010-2015)



Nodiadau: *Rhng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2010 yn unig yr oedd data ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd E. **Cyfnod casglu data mis Ionawr-mis Mehefin 2015 ar gyfer Byrddau Iechyd A-D; mis Ionawr-mis Ebrill ar gyfer Bwrdd Iechyd E.

Mae Ffigwr 3 yn dangos nifer yr apwyntiadau cleifion allanol dilynol ym maes dermatoleg (2010-2015)




Nodiadau: *Rhng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2010 yn unig yr oedd data ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd E. **Cyfnod casglu data mis Ionawr-mis Mehefin 2015 ar gyfer Byrddau Iechyd A-D; mis Ionawr-mis Ebrill ar gyfer Bwrdd Iechyd E.

Mae Ffigwr 4 yn dangos nifer y cleifion sy'n cael llawfeddygaeth ddermatoleg allanol ym mhob un o'r Byrddau Iechyd.


Ni fu cynnydd mawr yn nifer yr achosion llawfeddygol allanol ers 2010 ar draws y pump BILI a ymatebodd.

Mae Ffigwr 4 yn dangos nifer yr achosion llawfeddygol allanol ym maes dermatoleg (2010-2015)



Nodiadau: Ni wneir llawfeddygaeth allanol ym Mwrdd Iechyd B. *Rhng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2010 yn unig yr oedd data ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd E. **Cyfnod casglu data mis Ionawr-mis Mehefin 2015 ar gyfer Byrddau Iechyd A-D; mis Ionawr-mis Ebrill ar gyfer Bwrdd Iechyd E.

Mae Ffigwr 5 yn dangos nifer y cleifion mewnol dermatoleg a dderbyniwyd ym mhob Bwrdd Iechyd rhng 2010 a 2015



Nodiadau: *Rhng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2010 yn unig yr oedd data ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd E. **Cyfnod casglu data mis Ionawr-mis Mehefin 2015 ar gyfer Byrddau Iechyd A-D; mis Ionawr-mis Ebrill ar gyfer Bwrdd Iechyd E.

Tystiolaeth o ddefnyddio gwasanaethau ar draws Cymru mewn Llawfeddygaeth Blastig i'r cleifion hynny a gyfeiriwyd o adrannau dermatoleg

Dau o'r pum Bwrdd Iechyd a ymatebodd yn unig a oedd yn cyfeirio cleifion o ddermatoleg gofal eilaidd at wasanaethau llawfeddygaeth blastig. Un yn unig o'r Bwrdd Iechyd a oedd yn cyfeirio a allai ddarparu data ers 2010 ynghylch cyfeirio cleifion. Felly nid oeddem yn gallu gwneud cymariaethau ar draws Byrddau Iechyd o ran faint o wasanaethau llawfeddygaeth blastig yr oedd cleifion â chyflyrau'r croen yn eu defnyddio.

Un yn unig o'r pum Bwrdd Iechyd a ymatebodd a oedd yn darparu unrhyw wasanaethau llawfeddygaeth blastig neu a oedd yn cyflogi ymgynghorwyr mewn llawfeddygaeth blastig. Felly ni allwn gyflwyno unrhyw wybodaeth gysylltiedig â swyddi, cyfeirio ac apwyntiadau cleifion ym maes llawfeddygaeth blastig er mwyn eu cymharu.

Cymorth Seicogymdeithasol

Ychydig o fynediad sydd i wasanaethau seicodermatoleg yng Nghymru

Dau yn unig o'r pum Bwrdd Iechyd a ymatebodd sy'n cynnig mynediad i gleifion i gymorth seicolegol/seicogymdeithasol arbenigol. Roedd gan gleifion â chyflyrau malaen yn un o'r Byrddau Iechyd hyn fynediad i gymorth seicogymdeithasol arbenigol gan seicolegwyr clinigol y Gwasanaethau Canser ym mhob safle'r BILL. Fodd bynnag, nid oes gan gleifion sydd heb glefyd malaen fynediad i gymorth

seicogymdeithasol, ac eithrio cleifion sydd â chyflyrau iechyd meddwl (sydd â mynediad i gymorth drwy eu meddyg teulu a Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol). Roedd y Bwrdd Iechyd arall sy'n cynnig mynediad i gymorth seicogymdeithasol yn gwneud hynny drwy ddarparu mynediad i gleifion i'r seicolegydd clinigol sydd yn eu canolfan Ganser leol.

Llwybrau gofal - dylunio a datblygu

O ran darparu llwybrau gofal ar gyfer cyflyrau penodol y croen, ychydig o brotocolau mewnol a oedd wedi'u datblygu. Ar gyfer nifer o gyflyrau, nid oedd protocolau manwl yn cael eu defnyddio. Roedd y rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd yn defnyddio canllawiau NICE/Canllawiau Cymdeithas Dermatoleg Prydain er mwyn llywio datblygiad llwybrau gofal:

Mae Tabl 1 yn cyflwyno'r protocolau a ddefnyddir ar draws y BILL yng Nghymru

Cyflwr	Llwybr gofal-Oes/Nac oes
Melanoma malaen	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Ar y gweill D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Wedi'i seilio ar ganllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain
Carsinoma celloedd cennog	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Ar y gweill D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Wedi'i seilio ar ganllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain
Carsinoma cell waelodol canser y croen	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B.: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Ar y gweill D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Wedi'i seilio ar ganllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain

Cyflwr	Llwybr gofal-Oes/Nac oes
Namau â phigmentau	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Dim llwybr gofal D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Dermatitis cyswllt	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Dim llwybr gofal D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Dermatoleg bediatrig	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Dim llwybr gofal D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Anhwylderau'r fwlfa	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Dim llwybr gofal D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Briwiau coesau	A: Drwy glinigau briwiau, gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Dim llwybr gofal D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Acne	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Llwybr gofal yn ei le - ni roddwyd manylion D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Ecsema	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Llwybr gofal yn ei le wedi'i seilio ar ganllawiau NICE D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Psoriasis	A: Wedi'i seilio ar feini prawf cyfeirio gan ddefnyddio canllawiau NICE B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Llwybr gofal yn ei le wedi'i seilio ar ganllawiau NICE D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Alergedd	A: Nac oes - wedi'i reoli gan Imiwnoleg yn Ysbyty Athrofaol Cymru B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Dim llwybr gofal yn ei le D: Drwy gydweithredu â chydweithwyr gofal sylfaenol ac wedi'u cynhyrchu'n unol â chanllawiau NICE a Chymdeithas Dermatoleg Prydain E: Dim llwybr gofal
Eraill	A: Amherthnasol B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi C: Yn profi llwybrau gofal hwnt ac yma - ni roddwyd manylion
Eraill	A: Amherthnasol B: Wedi'i ddarparu gan ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r cyrff sy'n eu cyflogi

Adolygiadau gwasanaethau - mynychder ac ymwneud defnyddwyr gwasanaeth â nhw

Er gwaetha'r diffyg llwybrau gofal, mae pedwar o'r pump Bwrdd Iechyd a ymatebodd yn ymgymryd â nifer o weithgareddau cadarnhaol i adnabod angen gofal iechyd neu ofynion sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal y croen.

Yn dilyn mae rhestr o weithgareddau cyfredol sy'n digwydd ledled Cymru:

- Mae un Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Panel Cleifion Dermatoleg yn ddiweddar
- Cydweithio agos â Rhwydweithiau Gofal Bro
- Paneli Cleifion Dermatoleg
- Adolygiad o weithgarwch blaenorol i drigolion gyda darparwyr allanol
- Trafodaeth â meddygon teulu arweiniol lleol o bob un o'r meddygfeydd lleol
- Adolygiad o anghenion offer/gofynion clinigau
- Ystyriaeth i unrhyw lawfeddygaeth allanol y gellid ei gwneud
- Llwybrau cyfeirio ymlaen i gyrff bro
- Gofynion llywodraethu clinigol ar gyfer theatr ysbyty gymunedol
- Adnabod risgiau
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Dadansoddiad ariannol o wasanaethau dermatoleg mewn BILI
- Grŵp Iechyd Poblogaeth Pen, Gwddf a Croen
- Proses gynllunio flynyddol gan ddefnyddio asesiad o anghenion y boblogaeth, dadansoddiad o gapasiti a galw

Y gweithlu - argyfwng?

Rhoddodd y pum Bwrdd Iechyd a ymatebodd wybodaeth fanwl ynghylch staff a recriwtio ym maes dermatoleg. Mae dadansoddiad o'r canfyddiadau'n dangos bod diffyg dermatolegwyr ymgynghorol yng Nghymru ac mai nifer bach o ymgynghorwyr locwm sy'n gweithio yn y maes iechyd hwn.

Mae Tabl 2 yn cyflwyno statws y gweithlu ym maes dermatoleg yn y BILI a ymatebodd yng Nghymru

Cwestiwn	Nifer y swyddi (y Bwrdd Iechyd A-E)	Cyferwerth ag amser cyflawn (WTE) (y Bwrdd Iechyd A-E)
Faint o ddermatolegwyr ymgynghorol rydych chi'n eu cyflogi yn eich BILI?	A: 7 swydd (6 cyn Awst 15) B: Ar sail sesiynol yn unig C: 1 D: 2 E: 7	A: 5.2 WTE (4.2 Awst 15) B: Amh. C: 1 WTE D: 2.1 WTE E: 7 WTE
Faint o swyddi gwag i ddermatolegwyr ymgynghorol sydd yn eich BILI chi nawr?	A: 2 swydd B: Amh. C: 1 D: 2 E: 1	A: 2 WTE B: Amh. C: 1 WTE D: 1.6 WTE E: 1 WTE
Faint o ymgynghorwyr dermatoleg locwm a gyflogir gan y BILI?	A: 2 ymgynghorydd locwm (+ 1 gweithredol) B: Amh. C: 0 D: 0 E: 0	A: 0.4 WTE B: Amh. C: 0 WTE D: 0 WTE E: 0 WTE
Os ydych chi'n cyflogi ymgynghorwyr dermatoleg locwm, sawl un sydd ddim ar y gofrestr arbenigol?	A: 1 B: Amh. C: Amh. D: Amh. E: Amh.	A: 0.2 WTE B: Amh. C: Amh. D: Amh. E: Amh.
Os oes gennych chi ddermatolegwyr ymgynghorol locwm - pa mor hir buon nhw yn eu swydd?	A: 12 mis B: Amh. C: Amh. D: Amh. E: Amh.	

Tabl 2: Parhad

Cwestiwn	Nifer y swyddi (y Bwrdd Iechyd A-E)	Cyferwerth ag amser cyflawn (WTE) (y Bwrdd Iechyd A-E)
Oes gennych chi nyrsys dermatoleg arbenigol wedi'u cyflogi mewn gofal eilaidd yn y BILI?	A: 7 swydd (7 swydd o Fedi 2015) - rhai wedi'u hachredu B: Amh. C: 4 D: 4 E: 14	A: 4 WTE (5 WTE o Fedi 15) E: 9.24 WTE
Os ydych chi'n cyflogi nyrsys dermatoleg arbenigol - ydyn nhw wedi'u hachredu?	A. Ydyn - rhai B. Amh. C. Ydyn - rhai D. Nac ydyn E. Ydyn - rhai	
Amh. - Amherthnasol		

Mae'r dadansoddiad o'r canfyddiadau'n dangos bod gwasanaethau dermatoleg yn gweithredu gyda swyddi gwag ar lefel ymgynghorwyr a nyrsio ac er bod y darparwyr yn ymdrechu i lenwi'r bylchau hyn, roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau'n gweithredu gyda gwasanaeth dermatoleg gofal eilaidd heb ddigon o staff.

Wrth ymateb i gwestiynau penodol ynghylch cynllunio'r gweithlu dangosodd y pump Bwrdd Iechyd beth tystiolaeth o adolygiad dermatoleg ond prin oedd y dystiolaeth fod y gweithlu wedi cynyddu.

Mae Tabl 3 yn cyflwyno'r ymatebion gan y BILI i'r cwestiynau'n ymwneud ag adolygu'r gwasanaethau a gyflenwir

Cwestiwn	Ymateb gan bob Bwrdd Iechyd (A-E)
Ydy eich Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd ag asesiad anghenion gofal iechyd er mwyn pennu'r lefel debygol o alw am wasanaeth dermatoleg?	A: Ydy - mae'r galw a'r capasiti'n cael eu hadolygu'n flynyddol B: Ydy - yn ystyried datblygu gwasanaethau dermatoleg ar hyn o bryd C: Nac ydy D: Nac ydy E: Y gwasanaeth gwybodeg sy'n gwneud hyn gan ddefnyddio rhagfynegi'n seiliedig ar angen a thwf y boblogaeth
Ydy eich Bwrdd Iechyd wedi gwneud adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol?	A: Ydy - Cyfarfodydd cyfarwyddiaeth ac ymgynghorwyr, cynllunio swyddi a llenwi swyddi gwag. Hefyd gyda'r tîm Rhanbarthol gyda'r Bwrdd Iechyd drwy Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) B: Ydy - yn seiliedig ar weithgarwch blaenorol, gwybodaeth cyfeirio a setiau data cytundebau o Wasanaethau a Gomisiynwyd C: Ydy - ar y gweill ar hyn o bryd D: Nac ydy E: Mae'r gwasanaeth gwybodeg yn gwneud hyn gan ddefnyddio rhagfynegi wedi'i seilio ar angen a thwf poblogaeth
Pryd roedd y tro diwethaf i'ch Bwrdd Iechyd wneud arolwg o'r galw am wasanaethau dermatoleg lleol mewn perthynas â chapasiti'r gweithlu?	A: Ebrill 2015 yn unol â chynllun IMTP B: Amh. C: Yn cael ei wneud ar hyn o bryd drwy arolwg o'r gwasanaethau a thrwy'r mecanweithiau adrodd ar alw a chapasiti cyfredol ar gyfer cyflawni targedau amserau aros D: Ni wneir unrhyw weithgareddau E: Cânt eu hadolygu'n flynyddol
Pryd oedd y tro diwethaf i'ch Bwrdd Iechyd wneud arolwg o'r galw am wasanaethau llawfeddygaeth blastig leol a chapasiti'r gweithlu?	A: Amh. B: Amh. C: Amh. D: Ariannodd y comisiynydd 2 swydd newydd tua 2 flynedd yn ôl (Swydd llawfeddygaeth Dwylo a Phen a Gwddf) E: Amh.
Amh. = Amherthnasol	

Gofal Sylfaenol, Eilaidd a Chymunedol

O ran darpariaeth gwasanaethau dermatoleg y BILI, roedd amrywiad eang ar draws y rhanbarthau o ran dyluniad a chyfansoddiad eu gwasanaethau. Mewn un BILI, nid oes gan gleifion fynediad i wasanaethau dermatoleg yn y gymuned ac felly rhaid iddynt ddibynnu ar un arbenigedd ym maes gofal sylfaenol neu gael eu cyfeirio at wasanaethau gofal eilaidd mewn BILI

arall. Mae gan ddau o'r pum BILI a ymatebodd wasanaethau penodol sy'n cael eu cyflawni gan feddygon teulu sydd â diddordeb arbennig mewn dermatoleg. Mae'r dadansoddiad o'r data hefyd yn dangos bod nifer isel o GPwSI yng Nghymru, yn enwedig yn y byrddau iechyd lleol hynny lle nad oes gwasanaethau dermatoleg yn y gymuned.

Mae Tabl 4 yn cyflwyno'r ymatebion o pump BILI sy'n gysylltiedig â chyflawni gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd

Cwestiwn	Ymateb
Gwasanaethau dermatoleg yn y gymuned?	A: Oes B: Oes C: Oes D: Nac oes E: Oes
Gwasanaethau dermatoleg gofal eilaidd?	A: Oes B: Nac oes C: Oes D: Oes E: Oes
Gwasanaethau llawfeddygaeth blastig gofal eilaidd?	A: Nac oes B: Nac oes C: Nac oes D: Oes E: Nac oes
Gwasanaethau GPwSI?	A: Nac oes B: Nac oes C: Oes (Meddygfa croen - clinig wythnosol mewn ysbyty lleol ynghyd â chlinig yn y gymuned) D: Nac oes E: Oes (Dermatoleg gyffredinol a mân lawdriniaethau)
Lleoedd penodol mewn wardiau ar gyfer cleifion mewnol dermatoleg?	A: Oes B: Nac oes C: Nac oes D: Nac oes E: Oes
Clinig mynediad cyflym ar gyfer dermatoleg?	A: Oes (ddwywaith yr wythnos) B: Nac oes C: Nac oes D: Oes (wythnosol) E: Nac oes
Sut caiff ymgynghoriadau ar gyfer clinigau dermatoleg mynediad agored eu hysgogi/eu cydlynu?	A: Neilltuir ymgynghoriadau o ganlyniad i gyfeiriadau gan feddygon teulu, cleifion neu fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cysylltu B: Amh. C: Amh. D: 4 clinig 'Gweld a Thrin' wedi'u harwain gan Ymgynghorwyr E: Amh.
Amser aros ar gyfer dermatoleg frys nad yw'n dod o dan aros am 2 wythnos i gael cyfeiriad?	A: Llai na phythefnos B: Amh. C: Uchafswm amser aros 18 diwrnod gwaith D: 15 niwrnod ar gyfer apwyntiad mewn clinig triniaeth llawfeddygol E: Targed 21 diwrnod ar gyfer yr apwyntiad cyntaf fel claf allanol - canser brys o dan amheuaeth (USC) ar gyfer dermatoleg

Amh. - Amherthnasol

Symud Ymlaen

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig dadansoddiad byr ac nad yw'n gyflawn mewn unrhyw fodd o'r data a gasglwyd drwy ein hymarfer rhyddid gwybodaeth. Gan gydnabod ein capasiti a'n hadnoddau byddem yn annog pob corff neu bob aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb i gyrchu'r set data gyflawn.

Mae'r dadansoddiad o'r data wedi codi materion, heriau ac arferion da o ran cyflawni gwasanaethau gofal iechyd i bobl yng Nghymru sy'n byw gyda chyflyrau'r croen. Ein hargymhelliad yw bod y materion canlynol yn gofyn am sylw Llywodraeth Cymru a BILI er mwyn gwella'r profiad o wasanaethau dermatoleg o ansawdd uchel a'r mynediad sydd gan bobl yng Nghymru iddynt:

- Gweithio gyda BILI i ddatblygu fframweithiau priodol a safonedig ar gyfer casglu a monitro data cyffredinol sy'n ymwneud â defnyddio gwasanaethau a chanlyniadau iechyd cysylltiedig â chleifion sydd â chyflyrau'r croen. Bydd y fframweithiau hyn wedyn yn gallu llywio datblygiad gwasanaethau ac ail-ddylunio'r gwasanaethau presennol
- Deall y materion sy'n gysylltiedig â materion capasiti ac adrannau dermatoleg heb ddigon o adnoddau mewn nifer o BILI yng Nghymru ac ymateb iddynt
- Datblygu gwasanaethau seicodermatoleg penodol i boblogaethau lleol yng Nghymru, fel y gall rhai yng Nghymru sy'n byw gyda chyflyrau'r croen gael mynediad i'r cymorth priodol i reoli eu cyflwr y croen a byw gydag ef.



Dyluniad a Chyfansoddiad y Gwasanaeth

1) A oes gennych unrhyw wasanaethau dermatoleg yn y gymuned yn eich BILI? **Oes/Nac oes**

Os oes, ble maen nhw wedi'u lleoli a phwy sy'n darparu'r gwasanaeth?

2) A oes gennych unrhyw wasanaethau dermatoleg gofal eilaidd wedi'u darparu yn eich BILI?

Oes/Nac oes Os oes, gan bwy a ble mae'r gwasanaethau dermatoleg gofal cymunedol ac eilaidd yn cael eu darparu yn eich BILI ?

3) A oes gennych unrhyw wasanaethau llawfeddygaeth blastig gofal eilaidd wedi'u darparu yn eich BILI?

Oes/Nac oes Os oes, gan bwy a ble mae gwasanaethau llawfeddygaeth blastig gofal eilaidd wedi'u darparu?

4) Pa rai o'r gwasanaethau hyn sydd:

A: Wedi'u contractio fel gwasanaethau 18-wythnos wedi'u harwain gan ymgynghorwyr

Yn wasanaeth dermatoleg gofal cymunedol

Ydyn/Nac ydyn

Yn wasanaeth dermatoleg gofal eilaidd

Ydyn/Nac ydyn

Yn wasanaeth llawfeddygaeth blastig gofal eilaidd

Ydyn/Nac ydyn

B: Yn wasanaethau GPwSI gan feddygon teulu â diddordeb arbennig

Yn wasanaeth dermatoleg gofal cymunedol

Ydyn/Nac ydyn

Yn wasanaeth dermatoleg gofal eilaidd

Ydyn/Nac ydyn

Yn wasanaeth llawfeddygaeth blastig gofal eilaidd

Ydyn/Nac ydyn

C: Yn wasanaeth nyrsys gofal eilaidd

Yn wasanaeth dermatoleg gofal cymunedol

Ydyn/Nac ydyn

Yn wasanaeth dermatoleg gofal eilaidd

Ydyn/Nac ydyn

Yn wasanaeth llawfeddygaeth blastig

gofal eilaidd **Ydyn/Nac ydyn**

5) A yw'r BILI yn contractio'n uniongyrchol â gwasanaethau GPwSI?

Ydyn/Nac ydyn Os oes, pa wasanaethau dermatoleg sy'n cael eu cynnig gan GPwSI(s) (rhestrwch isod:)

6) Os oes gennych wasanaeth dermatoleg GPwSI sydd wedi'i gontractio'n uniongyrchol gan y BILI a yw pob un o'r GPwSIs:

A: yn darparu clinig misol yn eu hysbyty lleol

Ydy/Nac ydyn

B: â mynediad i adnodd dermatolegydd ymgynghorol arall

Oes/Nac oes

Rhowch fanylion isod:

Asesiad Ymgynghori ac Anghenion

1) A yw eich BILI yn rhoi gwasanaethau dermatoleg cymunedol yn lleol allan i dendr?

Ydyn/Nac Ydyn Os Ydy, a ydych chi'n gwneud hyn ar gyfer pob gwasanaeth dermatoleg cymunedol? Neu ar gyfer rhai gwasanaethau dermatoleg? Rhowch fanylion pa wasanaethau dermatoleg cymunedol rydych chi'n eu rhoi allan i dendr.

2) A oes gennych chi lwybrau gofal ar gyfer y cyflyrau'r croen canlynol?

Atodwch unrhyw brotocolau manwl:

Cyflwr	Llwybr gofal Oes/Nac Oes		
Melanoma malaen		Briwiau coesau	
Carcinoma celloedd cennog		Acne	
Carcinoma Cell Waelodol		Ecsema	
Canser y Croen		Psoriasis	
Namau â phigmentau		Alergedd	
Dermatitis cyswllt		Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	
Dermatoleg bediatrig		Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	
Anhwyldeu'r fwfa			

3) Sut cafodd y llwybrau gofal eu llywio?

A: Wedi'u llywio gan ganllawiau newydd (nodwch)

B: Wedi'u gweithredu ar ôl archwiliad gan y BILI

C: Wedi'u llywio drwy ymgynghori â'r cyhoedd ac â rhanddeiliaid allweddol eraill

D: Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

4) Pa weithgareddau rydych chi'n ymgymryd â nhw er mwyn adnabod yr angen gofal iechyd lleol neu'r gofynion ar gyfer ail-ddylunio'r gwasanaeth? (rhestrwch y rhain a rhoi enghreifftiau penodol o ran dermatoleg)

5) Ydy'r BILI wedi gwneud:

A: Asesiad o anghenion gofal iechyd er mwyn pennu lefel debygol y galw am wasanaeth dermatoleg? **Ydy/Nac ydy**

B: Adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaethau cyfredol? **Ydy/Nac ydy** Os Ydy, rhowch fanylion sut gwnaed hyn.

6) Pryd roedd y tro diwethaf i'ch BILI wneud arolwg o'r galw am wasanaethau dermatoleg lleol mewn perthynas â chapasiti'r gweithlu?

7) Pryd roedd y tro diwethaf i'ch BILI wneud arolwg o'r galw am wasanaethau llawfeddygaeth blastig lleol a chapasiti'r gweithlu?

Cwestiynau penodol am y defnydd o'r gwasanaeth (dermatoleg)

1) Faint o ddermatolegwyr ymgynghorol rydych chi'n eu cyflogi yn eich bwrdd iechyd lleol, a hynny wedi'i dorri i lawr fesul:

A: swydd B: WTE?

2) Faint o swyddi gwag am ddermatolegwyr ymgynghorol sydd yn eich BILI, a hynny wedi'i dorri i lawr fesul:

A: swydd B: WTE?

3) Faint o ymgynghorwyr dermatoleg a gyflogir gan y dd lechyd lleol, a hynny wedi'i dorri i lawr fesul:

A: swydd B: WTE?

4) Os ydych chi'n cyflogi ymgynghorwyr dermatoleg locwm, sawl un sydd ddim ar y gofrestr arbenigol?

5) O'r dermatolegwyr ymgynghorol locwm uchod, sawl un sydd wedi bod yn y swydd am

A: fwy na 12 mis

B: fwy na 24 mis

C: fwy na 36 mis

D: fwy na 48 mis

6) Ydy eich gwasanaeth dermatoleg gofal eilaidd arbenigol lleol wedi'i staffio'n llawn?

Ydy/Nac ydy Os oes gennych chi swyddi gwag:

A: ble yn y BILI y mae'r swydd wag/swyddi gwag yn y gwasanaeth dermatoleg gofal eilaidd arbenigol?

B: ydych chi wedi'u hysbysebu nhw?

C: sawl gwaith rydych chi wedi hysbysebu pob swydd wag?

7) Oes gennych chi unrhyw nyrsys dermatoleg arbenigol wedi'u cyflogi ym maes gofal eilaidd yn y BILI? **Oes/Nac oes** Os Oes, ble mae'r nyrsys hyn wedi'u lleoli a faint i gyd y mae'r BILI yn eu cyflogi?

8) Os ydych chi'n cyflogi nyrsys dermatoleg arbenigol - ydy'r nyrsys hyn yn ymarferwyr nyrsio dermatoleg wedi'u hachredu?

Ydyn pob un wedi'i hachredu**Ydyn** rhai wedi'u hachredu**Nac ydyn** dim un wedi'i achredu

9) Yn ardal eich BILI, faint o feddygon teulu sy'n darparu meddygfa croen yn lleol?

A ble maen nhw wedi'u lleoli?

Atodiad

10) Rhowch lefel gweithgareddau ar gyfer y gwasanaeth hwn, yn ôl cyflyrau penodol y croen, am y pump mlynedd ariannol diwethaf (2010-2011, 2011-2012, 2012-2013, 2013-2014, 2014-2015) ar gyfer:

Cyflwr	Ion-Rhag 2010	Ion-Rhag 2011	Ion-Rhag 2012	Ion-Rhag 2013	Ion-Rhag 2014	Ion-Rhag 2015
Melanoma malaen						
Carsinoma celloedd cennog						
Carsinoma Cell Waelodol Canser y Croen						
Namau â phigmentau						
Dermatitis cyswllt						
Dermatoleg bediatrig						
Anhwylderau'r fwfa						
Briwiau coesau						
Acne						
Ecsema						
Psoriasis						
Alergedd						

11) Faint o gleifion sy'n cael eu cyfeirio'n gyffredinol o ofal sylfaenol i'ch gwasanaethau dermatoleg arbenigol mewn gofal eilaidd lleol bob blwyddyn?

Cyflwr	Ion-Rhag 2010	Ion-Rhag 2011	Ion-Rhag 2012	Ion-Rhag 2013	Ion-Rhag 2014	Ion-Rhag 2015
Melanoma malaen						
Carsinoma celloedd cennog						
Carsinoma Cell Waelodol Canser y Croen						
Namau â phigmentau						
Dermatitis cyswllt						
Dermatoleg bediatrig						
Anhwylderau'r fwfa						
Briwiau coesau						
Acne						
Ecsema						
Psoriasis						
Alergedd						
Goruchwylio (wedi'i arwain gan nyrsys)						

12) Faint o gleifion a fynychodd apwyntiad claf allanol newydd mewn dermatoleg?

Cyflwr	Ion-Rhag 2010	Ion-Rhag 2011	Ion-Rhag 2012	Ion-Rhag 2013	Ion-Rhag 2014	Ion-Rhag 2015
Melanoma malaen						
Carsinoma celloedd cennog						
Carsinoma Cell Waelodol Canser y Croen						
Namau â phigmentau						
Dermatitis cyswllt						
Dermatoleg bediatrig						
Anhwylderau'r fwfa						
Briwiau coesau						
Acne						
Ecsema						
Psoriasis						
Alergedd						
Goruchwylio (wedi'i arwain gan nyrsys)						

13) Faint o gleifion a fynychodd apwyntiadau cleifion allanol dilynol ym maes dermatoleg?

Cyflwr	Ion-Rhag 2010	Ion-Rhag 2011	Ion-Rhag 2012	Ion-Rhag 2013	Ion-Rhag 2014	Ion-Rhag 2015
Melanoma malaen						
Carsinoma celloedd cennog						
Carsinoma Cell Waelodol Canser y Croen						
Namau â phigmentau						
Dermatitis cyswllt						
Dermatoleg bediatrig						
Anhwyldeu'r fwlf						
Briwiau coesau						
Acne						
Ecsema						
Psoriasis						
Alergedd						
Goruchwylio (wedi'i arwain gan nyrsys)						

14) Faint o gleifion a gafodd lawfeddygaeth ddermatoleg yn y BILI?
(achosion allanol mewn gofal eilaidd)

Cyflwr	Ion-Rhag 2010	Ion-Rhag 2011	Ion-Rhag 2012	Ion-Rhag 2013	Ion-Rhag 2014	Ion-Rhag 2015
Melanoma malaen						
Carsinoma celloedd cennog						
Carsinoma Cell Waelodol Canser y Croen						
Namau â phigmentau						
Dermatitis cyswllt						
Dermatoleg bediatrig						
Anhwyldeu'r fwlf						
Briwiau coesau						
Acne						
Ecsema						
Psoriasis						
Alergedd						
Goruchwylio (wedi'i arwain gan nyrsys)						

15) Faint o gleifion dermatoleg a gafodd eu derbyn i'r ysbyty yn eich BILI?

Cyflwr	Ion-Rhag 2010	Ion-Rhag 2011	Ion-Rhag 2012	Ion-Rhag 2013	Ion-Rhag 2014	Ion-Rhag 2015
Melanoma malaen						
Carsinoma celloedd cennog						
Carsinoma Cell Waelodol Canser y Croen						
Namau â phigmentau						
Dermatitis cyswllt						
Dermatoleg bediatrig						
Anhwyldeu'r fwlf						
Briwiau coesau						
Acne						
Ecsema						
Psoriasis						
Alergedd						
Goruchwylio (wedi'i arwain gan nyrsys)						

Atodiad

16) Oes gennych chi unrhyw leoedd penodol mewn wardiau ar gyfer cleifion mewnol dermatoleg yn eich BILI?

Nac oes ddim mewn unrhyw safle

Oes ym mhob safle

Oes mewn rhai safleoedd (nodwch)

17) Beth yw'r amser aros yn eich BILI ar gyfer cyfeiriadau dermatoleg brys sy'n dod o dan gategori aros dau wythnos am gyfeiriad?

Rhowch fanylion isod:

18) A oes gan y BILI glinig mynediad cyflym ar gyfer dermatoleg?

Oes/Nac oes Os Oes:

A: pa mor aml y cynhelir y clinigau hyn?

B: sut mae'r ymgynghoriadau hyn yn cael eu cydlynu/eu hysgogi?

19) O ran cyfeiriadau newydd a chyfeiriadau dilynol sy'n dod i mewn, o fewn y contractau a gytunwyd, a yw'r BILI wedi nodi bod angen heb ei gyflawni yn y pump mlynedd ariannol diwethaf (2010-2015)?

Os felly, faint oedd yr angen heb ei gyflawni hwn? Rhowch fanylion:

20) Ym mhob un o'r pump mlynedd ariannol diwethaf (2010-2011, 2011-2012, 2012-2013, 2013-2014, 2014-2015) ar gyfer faint o gleifion rydych chi wedi torri eich targedau aros dau wythnos ar gyfer cyfeiriadau canser?

23) Rhowch fanylion pwy sy'n darparu'r gwasanaeth seicolegol/seicogymdeithasol hwn, manylion y gwasanaeth a manylion y swyddi sydd ar gael? (e.e. WTE, wedi'u lleoli ym mha safle ysbty)

Blwyddyn	Nifer y cleifion
2010	
2011	
2012	
2013	
2014	
2015 (hyd yma)	

21) Ym mhob un o'r 5 mlynedd ariannol diwethaf (2010-2011, 2011-2012, 2012-2013, 2013-2014, 2014-2015) faint o gleifion â chanser y croen sydd wedi cael eu cyfeirio o wasanaethau dermatoleg gofal eilaidd i wasanaethau llawfeddygaeth blastig?

Blwyddyn	Nifer y cleifion
2010	
2011	
2012	
2013	
2014	
2015 (hyd yma)	

22) Oes gan gleifion dermatoleg fynediad i wasanaethau cymorth seicolegol/seicogymdeithasol arbenigol yn y BILI?

Oes/Nac oes

Oes ym mhob safle

Oes mewn rhai safleoedd **Nac oes** Nodwch y mathau o wasanaethau a yngirir:

Cwestiynau am ddefnydd gwasanaethau penodol (gwasanaethau llawfeddygaeth blastig)

1) Faint o lawfeddygon plastig ymgynghorol rydych chi'n eu cyflogi yn eich BILI, a hynny wedi'i dorri i lawr fesul:

A: swydd **B:** WTE?

C: arbenigedd mewn canser y croen?

2) Faint o swyddi gwag ar gyfer llawfeddygon plastig ymgynghorol sydd ar hyn o bryd yn eich BILI, a hynny wedi'i dorri i lawr fesul:

A: swydd **B:** WTE?

C: arbenigedd mewn canser y croen?

3) Faint o ymgynghorwyr locwm llawfeddygaeth blastig sydd wedi'u cyflogi gan y BILI, a hynny wedi'i dorri i lawr fesul:

A: swydd **B:** WTE?

4) Os ydych chi'n cyflogi ymgynghorwyr locwm llawfeddygaeth blastig, sawl un sydd ddim ar y gofrestr o arbenigwyr?

5) O'r ymgynghorwyr locwm uchod, faint sydd wedi bod yn eu swydd am

A: fwy na 12 mis

B: fwy na 24 mis

C: fwy na 36 mis

D: fwy na 38 mis

6) Ydy eich gwasanaeth llawfeddygaeth blastig gofal eilaidd arbenigol lleol wedi'i staffio'n llawn? **Ydy/Nac ydy**

Os oes gennych chi swyddi gwag:

A: ble yn y BILI mae'r swyddi gwag hyn?

B: ydych chi wedi'u hysbysebu nhw?

C: sawl gwaith rydych chi wedi hysbysebu pob swydd wag?

7) Faint o nyrsys arbenigol sydd wedi'u cyflogi ym maes llawfeddygaeth blastig er mwyn rheoli cancer y croen yn y bwrdd iechyd lleol ym maes gofal eilaidd? Os Oes, ble mae'r nyrsys hyn wedi'u lleoli a faint i gyd y mae'r BILI yn eu cyflogi?

8) Ydy'r nyrsys hyn yn ymarferwyr nyrsio gofal cancer wedi'u hachredu?

Ydyn pob un wedi'i hachredu

Ydyn rhai wedi'u hachredu

Nac ydyn dim un wedi'i achredu

9) Faint o gyfeiriadau cyffredinol a wneir o ofal sylfaenol i'ch gwasanaeth llawfeddygaeth blastig arbenigol lleol bob blwyddyn ar gyfer cleifion â chanser y croen?

Blwyddyn	Nifer y cleifion
2010	
2011	
2012	
2013	
2014	
2015 (hyd yma)	

10) Beth yw'r ffynonellau cyfeirio eraill ar gyfer cleifion cancer y croen newydd i'ch gwasanaeth llawfeddygaeth blastig arbenigol?

11) Faint o gleifion cancer y croen sy'n mynychu apwyntiadau cleifion allanol newydd ym maes llawfeddygaeth blastig?

Blwyddyn	Nifer y cleifion
2010	
2011	
2012	
2013	
2014	
2015 (hyd yma)	

12) Faint o gleifion cancer y croen sy'n mynychu apwyntiadau cleifion allanol dilynol ym maes llawfeddygaeth blastig?

Blwyddyn	Nifer y cleifion
2010	
2011	
2012	
2013	
2014	
2015 (hyd yma)	

13) Faint o achosion allanol llawfeddygaeth blastig sydd ym maes gofal eilaidd (cancer y croen)?

Blwyddyn	Nifer y cleifion
2010	
2011	
2012	
2013	
2014	
2015 (hyd yma)	

14) Faint o gleifion mewnol llawfeddygaeth blastig sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn eich Bwrdd Iechyd (cancer y croen)?

Blwyddyn	Nifer y cleifion
2010	
2011	
2012	
2013	
2014	
2015 (hyd yma)	

15) Oes gennych chi leoedd penodol mewn wardiau i gleifion mewnol cancer y croen? Os Oes, ble mae'r rhain wedi'u lleoli yn y BILI?

16) Beth yw'r amser aros ar gyfer cyfeiriadau cancer y croen brys ym maes llawfeddygaeth blastig nad ydyn nhw'n dod o dan gyfeiriad aros 2 wythnos?

17) Ydy'r BILI yn gweithredu clinig mynediad cyflym ar gyfer cleifion cancer y croen ym maes gwasanaethau llawfeddygaeth blastig? Os felly:

A: pa mor aml y cynhelir y clinigau hyn?

B: sut maen nhw'n cael eu hysgogi?

C: ble mae'r rhain wedi'u lleoli yn y BILI?

Hoffem ofyn am ganiatâd i ailgyhoeddi'r wybodaeth a dderbyniwyd ar ffurf sydd ar gael i'r cyhoedd.